Cyfieithiad / translation

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD CYNGOR SIR YNYS MÔN A CHYNGOR GWYNEDD

## DTAGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 1 (PARATOI'R CYNLLUN, GWELEDIGAETH A STRATEGAETH)

## YMATEBYDD: HORIZON NUCLEAR POWER WYLFA LIMITED (CYF: 2919)

Awst 2016

Ein cyf: Q60570

# Cynnwys

1 CYFLWYNIAD ........ 1

2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO ........ 5

3 NEWIDIADAU A GEISIR ........ 12

ATODIAD 1 – CYFUNDREFN GANIATÁU A MATERION ALLWEDDOL ........ 13

ATODIAD 2 – DISGRIFIAD PROSIECT WYLFA NEWYDD ........ 15

ATODIAD 3 – POLISI STRATEGOL PS1: 'IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG' (NEWIDIADAU ARFAETHEDIG) .... 26

## Dogfennau

Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â chyflwyniadau ar wahân yr ymatebydd, fel y rhestrir isod:

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 2: DARPARIAETH TAI

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 5: ECONOMI – CYFLOGAETH, MANWERTHU A THWRISTIAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 6: AMGYLCHEDD HANESYDDOL A NATURIOL

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 9: WYLFA

## Tablau

Tabl 1 – Crynodeb o gyflenwad a galw

## Atodiadau

Atodiad 1 – Cyfundrefn Ganiatáu a Materion Allweddol

Atodiad 2 – Disgrifiad o Brosiect Wylfa Newydd

Atodiad 3 – Polisi Strategol PS1: 'Iaith a'r Diwylliant Cymraeg' (Newidiadau arfaethedig)

# 1 CYFLWYNIAD

## a) <u>Yr ymatebydd</u>

1.1 Mae'r ymatebydd, Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("Horizon"), yn rhoi cynigion ymlaen ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ("Prosiect Wylfa Newydd" neu'r "Prosiect"). Mae'r Datganiad Gwrandawiad hwn (y "Datganiad") yn delio'n benodol â Sesiwn 1 – Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth.

1.2 Parhaodd Horizon i gynnal deialog cynhyrchiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn a ("CSYM") a Chyngor Gwynedd (gyda'i gilydd, "y Cynghorau") ar ôl cyflwyno ei sylwadau i wahanol gamau ymgynghori y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("y Cynllun"). Mae Horizon wedi gweithio gyda'r Cynghorau i ddod i gytundeb ar faterion lle bo hynny'n bosibl a bydd hyn yn cael ei nodi yn y Datganiad o Dir Cyffredin ("SoCG") sydd i gael ei ffeilio ar 23 Awst.

1.3 Mae'r Datganiad hwn felly'n ymdrin â'r materion sy'n weddill lle naill ai na chyrhaeddwyd cytundeb, neu lle mae trafodaethau yn mynd yn eu blaenau.

1.4 Fel yr esbonnir yn y Datganiad hwn, ystyria Horizon bod angen diwygiadau penodol i bolisïau PS1, TAI3, CYF1, CYF4, PS12, MAN6, TWR1, PS16; paragraffau 7.3.25 d 7.3.55; a Map Cynigion 1 (ailgyflwyno cynigion yr A5025) a Map Cyfyngiadau 1 (dileu dynodiad Trwyn yr Wylfa fel GNL) i sicrhau cadernid y Cynllun.

1.5 Nid yw manylion y newidiadau arfaethedig a ystyrir yn hanfodol i'r polisïau hyn i gyd wedi eu nodi yn y Datganiad hwn, dim ond y rhai sy'n ymwneud â Pholisi Strategol PS1 *'Iaith a Diwylliant Cymraeg'*. Amlinellir y newidiadau arfaethedig i bolisïau eraill yn fanwl yn natganiadau gwrandawiad sesiynau 2, 5, 6 a 9.

1.6 Noda'r Datganiad hwn gyd-destun trosfwaol a sail ar gyfer pryderon Horizon, sy'n llifo drwy'r holl ddatganiadau gwrandawiad.

**b) Wylfa Newydd**

1.7 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni ("NPS") EN-1 ("EN-1") yn amlinellu'r angen am o leiaf 22GW (tua chwarter) o gapasiti cynhyrchu trydan presennol i gael ei amnewid yn y blynyddoedd i ddod, gan greu'r angen i fuddsoddi mewn capasiti cynhyrchu newydd ar frys. Nodwyd Wylfa fel safle addas ar gyfer datblygu gorsaf ynni niwclear newydd yn yr NPS i Gynhyrchu Ynni Niwclear ("EN-6"). Mae'r Prosiect hefyd yn Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd ("NSIP").

1.8 Mae NPS EN-1 yn pwysleisio natur frys yr angen am gapasiti trydan newydd. Noda paragraff 3.5.15 o'r NPS EN-1:

> **"Er mwyn sicrhau cyflenwadau ynni sy'n ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau ar gyfer 2050, mae angen brys am ddod ag NSIPs ynni newydd (yn enwedig carbon isel) ymlaen cyn gynted ag y bo modd, ac yn sicr yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf , o ystyried rôl hollbwysig trydan wrth i'r DU ddatgarboneiddio ei sector ynni".**

1.9 Aiff Paragraff 3.3.23 o NPS EN-1 ymlaen i esbonio wrth geisio lleihau'r risgiau i ddiogelwch ynni a gwydnwch, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn ddoeth cynllunio ar gyfer angen sylfaenol o 59GW o gapasiti trydan newydd erbyn 2025.

1.10 Yn unol â hynny, wrth gyfeirio at rôl cynhyrchu trydan niwclear, noda paragraff 3.5.1:

> **"Er mwyn i'r DU gyflawni ei hamcanion ynni a newid yn yr hinsawdd, mae'r Llywodraeth yn credu bod <u>angen brys am</u> waith cynhyrchu trydan newydd, gan gynnwys <u>ynni niwclear newydd.</u> Mae cynhyrchu ynni niwclear yn dechnoleg garbon isel brofedig, y rhagwelir fydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth i ni symud i arallgyfeirio a datgarboneiddio ein ffynonellau trydan".**
>
> [Ein pwyslais]

1.11 Hefyd pwysleisir y brys am ynni niwclear newydd yn y DU ym mharagraff 3.5.9:

> **"O ystyried yr angen brys am ffurfiau carbon isel o drydan i gyfrannu at gymysgedd ynni'r DU a gwella diogelwch ynni ac amrywiaeth cyflenwad y DU, mae'n bwysig bod gorsafoedd ynni niwclear newydd yn cael eu hadeiladu ac yn dechrau cynhyrchu cyn gynted ag y bo modd a chryn dipyn yn gynharach na 2025 (gweler Adran 2.2 o EN-6, sy'n nodi'r polisi mewn perthynas ag ystyriaeth yr IPC o ddefnydd cynnar o orsafoedd ynni niwclear newydd). Yn seiliedig ar argaeledd - ymhlith pethau eraill - deunyddiau adeiladu, sgiliau, buddsoddiad, amserlen ar gyfer trwyddedu, a'r buddsoddiad cysylltiedig yn y seilwaith trawsyrru a dosbarthu, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn realistig i orsafoedd ynni niwclear newydd fod yn weithredol yn y DU o 2018, gyda defnydd cynyddol wrth i ni symud tuag at 2025".** [Ein pwyslais]

1.12 Mae NPS EN-6 (o'i gymryd gyda NPS EN-1) yn darparu'r brif sail ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau DCO ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear.

1.13 Noda NPS EN-6 yr Wylfa fel un o wyth o safleoedd y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu yn addas o bosibl i'w defnyddio ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd erbyn diwedd 2025.

1.14 Wrth ystyried ei asesiad o ddewisiadau amgen a'r angen am safleoedd a restrir i'w cynnwys yn yr NPS EN-6, noda paragraff 2.4.4 yn glir:

> **"O ystyried y nifer cyfyngedig iawn o safleoedd a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ar gyfer darparu gorsafoedd ynni niwclear newydd erbyn diwedd 2025, mae'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn ofynnol i bob un o'r wyth gael eu rhestru yn yr NPS hwn. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o hyblygrwydd i ddiwallu'r angen dybryd am orsafoedd ynni niwclear newydd (gweler Rhan 3 o EN-1), tra'n galluogi'r IPC i wrthod caniatâd petai'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny."**

1.15 Mae'n hanfodol, felly, bod polisïau cynllunio sy'n dod i'r amlwg yn cydnabod y Prosiect ac nad ydynt yn tanseilio nac yn tanamcangyfrif y brys i ddarparu ynni niwclear newydd sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol.

1.16 Er bod adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod ceisiadau DCO i gael eu penderfynu yn unol â datganiadau polisi cenedlaethol perthnasol, mae polisi cynllunio lleol hefyd yn berthnasol iawn, ar gyfer yr NSIP a'i ddatblygiad cysylltiedig[1] (gweler hefyd 2.9)

---

[1] Datblygiadau i gefnogi darparu Wylfa Newydd. Mae hyn yn cynnwys: gwelliannau priffyrdd ar ac oddi ar-lein; cyfleuster parcio a theithio ar gyfer gweithwyr adeiladu, canolfan logisteg; canolfan ymwelwyr, a llety gweithwyr adeiladu dros dro oddi ar y safle

1.17 Pennir datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru (yn amodol ar y newidiadau a gynigiwyd ym Mesur Cymru) o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA"). Disgrifia Atodiad 1 i'r Datganiad hwn y drefn ganiatáu yng Nghymru yn fwy manwl. Mae graddfa ac ystod y datblygiad cysylltiedig ar gyfer prosiect fel Wylfa Newydd yn sylweddol iawn; nodir hyn mewn mwy o fanylder yn natganiadau gwrandawiad Horizon.

1.18 Yn enwedig oherwydd y gyfundrefn ganiatâd unigryw i NSIPs yng Nghymru, mae'n hanfodol bod polisïau cynllunio lleol yn rhagweld y Prosiect ac yn darparu fframwaith polisi cynllunio clir nad yw'n rhwystro penderfynu ar y ceisiadau datblygu cysylltiedig. Byddai methiant i wneud hynny yn gallu rhagfarnu'n erbyn neu oedi cyflwyno cynhyrchu ynni niwclear newydd sydd â brys mawr amdano.

**c) <u>Strwythur y Datganiad Gwrandawiad</u>**

1.19 Dengys y Datganiad hwn yng nghyd-destun (b) uchod nad yw'r Cynllun yn gadarn mewn perthynas â'r tri mater a nodir ym mharagraff 1.20 isod, pan gaiff ei asesu yn erbyn y prawf cadernid a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016) [2] (PCC) a'r deg maen prawf cadernid a nodir yn y Cynllun[3].

1.20 Mae'r datganiad hwn wedi'i gyfyngu i faterion a godwyd gan yr Arolygydd, yn yr Agenda Materion i Sesiwn 1.

1.21 Mae Horizon hefyd yn dibynnu ar ei gyflwyniadau mewn perthynas â Sesiynau 2, 5, 6 a 9.

1.22 Mae Adran 2 o'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r Cynllun ac asesiad o'i gadernid yn erbyn y meini prawf a nodir yn PCC a'r Cynllun ei hun, mewn perthynas â'r materion dan sylw a godwyd gan yr Arolygydd.

1.23 Mae Adran 3 yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig y mae Horizon yn eu hystyried yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun.

---

[2] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

[3] Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

# 2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO

2.1 Nid yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn darparu fframwaith polisi yn ddigon clir i gefnogi a darparu rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o Brosiect Wylfa Newydd. Mae cryn ansicrwydd ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol, a sut y byddant yn cael eu cymhwyso. Gan fod Horizon angen y datblygiadau cysylltiedig i gyflenwi Wylfa Newydd, mae hyn yn cyflwyno risg clir iawn i'r Prosiect ei hun

2.2 Ystyria Horizon mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu fframwaith polisi cynllunio clir, ac felly gwneud y Cynllun yn gadarn, fyddai drwy gyflwyno polisïau penodol i Wylfa. Fodd bynnag, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ("UPCC") wedi gwrthod polisïau penodol Wylfa Newydd arfaethedig Horizon yn ystod y gwahanol gyfnodau o baratoi'r cynllun.

2.3 Ystyria UPCC nad yw polisïau penodol Wylfa Newydd yn angenrheidiol ac ar y sail honno mae wedi gwrthod cais Horizon i ymgysylltu ar ddrafftio polisïau o'r fath.

2.4 Mae Horizon yn derbyn ei bod yn annhebygol o gyflawni polisïau penodol Wylfa Newydd heb ymrwymiad a chefnogaeth yr UPCC. Yng ngoleuni hyn, nid yw Horizon yn dilyn dull gweithredu polisïau penodol Wylfa Newydd, ond yn hytrach yn dilyn dull amgen o ddiwygiadau penodol i bolisïau drafft cyfredol.

2.5 Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cael ei fireinio a'i ddiwygio fel bod gwahaniaeth clir rhwng y polisïau hynny sy'n ymwneud â chynigion sy'n gyffredinol berthnasol a'r rhai sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd (datblygiadau cysylltiedig yn arbennig). Heb y mireinio hwn, mae gormod o ansicrwydd ynghylch ba bolisïau fydd yn berthnasol a sut y byddant yn cael eu cymhwyso.

2.6 Mae Horizon yn ceisio diwygiadau, fel y nodir yn y Datganiad hwn a'**r** Datganiadau Gwrandawiad arall, i bolisïau PS1PS1, TAI3, CYF1, CYF4, PS12, MAN6, TWR1, PS16; paragraffau 7.3.25 a 7.3.55; a Map Cynigion 1 (ailgyflwyno'r A5025) a Map Cyfyngiadau 1 (dileu dynodiad Trwyn yr Wylfa fel GNL).

2.7 Ystyria Horizon ei bod yn hanfodol bod ei ddiwygiadau yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid amrywiol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

a) **<u>A yw'r Cynllun yn adlewyrchu strategaethau a chynigion y darparwyr seilwaith?</u>**

*(Cwestiwn 6(d), Sesiwn Gwrandawiad 1 Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth Ofodol - Agenda Materion)*

2.8 Nid yw'r Cynllun yn adlewyrchu'n briodol strategaeth na chynigion Horizon ar gyfer cyflenwi Wylfa Newydd (na'r angen dybryd am orsafoedd ynni niwclear a nodwyd yn yr NPS EN-1 ac EN-6). Nid yw'r Cynllun yn darparu fframwaith polisi digon clir i gydsynio elfennau sylweddol o'r Prosiect.

2.9 Wrth benderfynu ar gais am DCO, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ("YG") roi sylw i faterion yn cynnwys:[4]

- unrhyw NPS sy'n cael effaith mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig;
- unrhyw adroddiad ar effaith leol a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac
- unrhyw fater arall y cred yr YG sy'n bwysig a pherthnasol i'r penderfyniad.

2.10 Mae NPS EN-1 yn nodi y gall y gwneuthurwr penderfyniad ystyried "y Dogfennau Cynllun Datblygu" a dogfennau eraill yn y "Fframwaith Datblygu Lleol" fel materion "pwysig a pherthnasol".S.104 (2) ac mae NPS EN-1, felly, yn egluro pwysigrwydd polisi cynllunio lleol i ddarparu fframwaith polisi priodol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, yn ogystal â bod y polisïau a ddefnyddir i benderfynu ar y datblygiadau cysylltiedig.

2.11 Fel y'i drafftiwyd, nid yw'r Cynllun yn glir ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol i Brosiect Wylfa Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig, a sut y byddant yn cael eu cymhwyso. Mae hyn yn creu perygl gwirioneddol y bydd datblygiadau cysylltiedig sy'n hollbwysig i gyflenwi Wylfa Newydd yn cael ei niweidio. Mae'r egwyddor hon yn ategu pryderon Horizon o ran yr holl sesiynau gwrando, a nodwyd enghreifftiau penodol ynghylch priodoldeb y dull hwn yn y datganiadau ar gyfer Sesiynau 2 (Darpariaeth Tai), 5 (Economi - cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), 6 (Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol), a 9 (Wylfa).

2.12 O ran yr angen am ddatblygiadau cysylltiedig, ar y brig o adeiladu byddai'r Prosiect yn cyfrif am tua thraean o'r holl swyddi (oddeutu 6,000 am tua phedair blynedd) yn Ynys Môn (sydd â chyfanswm o 19,000 o weithwyr fel yr esboniwyd ym mharagraff 2.22 ). Unwaith y bydd yn weithredol byddai'n

---

[4] Adran 104(2) Deddf Cynllunio 2008

cynyddu cyflogaeth ar Ynys Môn o 4.5% (a ddisgwylir i fod hyd at 850 o weithwyr). Yn ystod toriad (outage) byddai angen hyd at 1,000 o weithwyr ychwanegol.

2.13 Er bod Horizon wedi ymrwymo i facsimeiddio cyflogi pobl leol, ni fydd cyfran fawr o'r gweithlu adeiladu yn lleol. I leihau effeithiau andwyol ar gymunedau lleol ac i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael, mae angen i Horizon adeiladu llety pwrpasol a buddsoddi mewn diwygiadau sylweddol i'r seilwaith trafnidiaeth. Mae Atodiad 2 yn rhoi disgrifiad manylach o Brosiect Wylfa Newydd a'r gwahanol gydrannau sydd eu hangen.

2.14 Er mwyn cyflawni'n effeithlon y raddfa hon o ddatblygiad i raglen, mae Horizon angen polisïau sy'n rhoi eglurder a sicrwydd ynghylch sut y caiff ceisiadau cynllunio eu penderfynu. Gallai methu â gwneud hyn oedi ceisiadau o'r fath yn ddiangen, ac yn dilyn hynny effeithio ar ganiatáu'r DCO.

**2.15** Ystyria Horizon bod maint, amseriad (o ran hyd y Prosiect), a chyd-destun cenedlaethol y Prosiect yn cyfiawnhau diwygiadau penodol i'r Cynllun i sicrhau bod ei bolisïau yn darparu fframwaith polisi cynllunio clir y gall y Prosiect a'i ddatblygiadau cysylltiedig gael eu hystyried yn ei erbyn. Bydd hyn yn lleihau'r ansicrwydd i bob parti - y Cynghorau, Horizon a'r gymuned leol - ynghylch pa bolisïau y bydd y Cynghorau yn gymhwyso wrth ymateb i'r cais am DCO ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Ceir ciplun o faint y Prosiect isod.

2.16 Mae Horizon yn amcangyfrif y bydd angen rhwng 8,000 a 10,000 o weithwyr adeiladu ar frig y cyfnod adeiladu (a byddai mwy na 6,000 o weithwyr am tua tair i bedair blynedd). Ni fydd y rhan fwyaf o weithwyr eisoes yn byw yn Ynys Môn neu o amgylch, ac felly bydd angen llety dros dro am gyfnod eu gwaith ar y safle. Yn ogystal â hyn, cyflogir gweithwyr gweithredol a rheoli cyfleusterau, gan arwain at gyfanswm y gweithlu brig o hyd at 10,720. Mae rheoli gweithlu adeiladu o'r maint hwn yn arwyddocaol iawn o ran cynllunio defnydd tir, a chred Horizon ei fod angen triniaeth fanwl a phenodol mewn polisi.

2.17 Er enghraifft, o'r gweithlu brig o 10,720 a amcangyfrifir, mae Horizon yn amcangyfrif y byddai 2,700 yn cymudo bob dydd o gartref, ac felly ni fyddent angen darpariaeth llety penodol. Felly, amcangyfrifir y byddai ychydig dros 8,020 o weithwyr adeiladu angen chwilio am lety newydd neu

bresennol i ganiatáu iddynt fod yn agosach at safle'r Orsaf Ynni. Mae Horizon yn gweithio gyda'r Cynghorau a Llywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu (CWAS). Er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, mae CWAS ar hyn o bryd yn dod i'r casgliad y bydd gweithwyr yn cael eu lletya fel a ganlyn:

**Tabl 1: *Crynodeb o gyflenwad a galw***

| Math o lety | | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Gweithwyr cartref | | 2,700 |
| Llety Gweithwyr Dros Dro yn cynnwys | Darpariaeth ar y safle o Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro i weithwyr hanfodol | 500 |
| | Fferm Madyn | 200 |
| | Kingsland a Cae Glas (rhan o'r datblygiad a elwir yn Land & Lakes, sydd eisoes â chaniatâd cynllunio amlinellol) | 3,500 |
| | Rhosgoch | Hyd at 1,500 |
| | Safleoedd A a B Amlwch | 800 (darpariaeth amgen bosibl) |
| **Is gyfanswm** | | **5,700** |
| Llety presennol | Stoc Sector Twristiaeth Presennol ar Rent | 1,100 |
| | Perchen ddeiliad newydd | 730 |
| | Stoc Sector Preifat Presennol ar Rent | 1,100 |
| | Llety cudd | 400 |
| **Is gyfanswm** | | **3,300** |
| **Cyfanswm** | | **Hyd at 11,700** |

2.18 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch union nifer y gweithwyr a fydd angen llety. Yn unol â hynny, mae'r CWAS yn cymryd ymagwedd rhagofalus ac yn cynnwys lle ar gyfer hyd at 5,700 o weithwyr mewn Llety Gweithwyr Dros Dro; mae hyn 1,000 yn fwy o welyau nag a fyddai eu hangen. Ystyrir bod gwneud darpariaeth ar gyfer 1,000 o welyau ychwanegol yn ddigonol i ymdopi ag unrhyw alw ychwanegol petai nifer y gweithwyr cartref yn llai na 2,700, gan ei bod yn annhebygol iawn y byddai cyfran y gweithwyr cartref yn syrthio o dan 1,700.

2.19 Ni fydd y nifer terfynol y welyau sydd eu hangen i gefnogi gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn hysbys tan fydd y prosiect wedi dechrau. Dim ond lle mae'r galw yn bodoli y byddai Horizon yn dymuno defnyddio'r gwelyau, ond mae'n rhaid sicrhau bod capasiti wedi'i ganiatáu i ddefnyddio gwelyau dros dro yn gyflym hyd at y gofyniad mwyaf posibl. Mae prosiectau peirianneg mawr cymhleth eraill yn y DU, megis Hinkley Point C a phrosiectau adeiladu olew a nwy mawr, wedi mabwysiadu'r

[7] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[8] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

dull hwn i sicrhau adeiladu prosiectau'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi rheoli ymddygiad gweithwyr ac effeithiau ar lety presennol ac effeithiau eraill yn yr ardal ehangach.

2.20 Mae paragraff 7.3.16 o'r Cynllun Cyfansawdd (2016) yn nodi y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y cyfnod adeiladu prysuraf yn arwain at tua 8,500 o weithwyr. Mae'n mynd ymlaen i gydnabod y bydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu yn cael ei letya trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys unedau tai preifat i'w prynu neu rentu, llety gwyliau a llety a adeiladwyd yn bwrpasol wedi'i ddarparu gan Horizon neu drwy drydydd parti.

2.21 Mae Polisi Drafft PS13 yn mynd ymlaen i osod gofyniad ar gyfer 7,184 o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar Bapur Pwnc 20 sy'n ceisio darparu taflwybr tai sy'n ymgorffori'r cyflwyniad graddol /tebygol cynlluniau tai a nodi'r safle cyflenwad tir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae paragraff 3.1 o Bapur Pwnc 20 yn cydnabod:

> **"Er mwyn ateb y gofyniad hwn, byddai angen i'r nifer a gwblheir fod ar gyfartaledd o 479 o unedau tai'r flwyddyn yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae datblygu tir yn gyffredinol gymhleth, gyda nifer o ffactorau yn effeithio ar ryddhau tir ar gyfer datblygu. Mae'r gofyniad tai sylfaenol yn adlewyrchu'r hyn y mae'r farchnad dai yn debygol o'i gyflenwi yn ystod cyfnod y Cynllun. Ni fyddai'n rhesymol disgwyl dosbarthiad cyfartal o unedau tai newydd naill ai ar sail blwyddyn i flwyddyn neu'n wir mewn termau gofodol"**

2.22 Ymhellach, mae cofrestr busnes ac arolwg cyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2014) yn cadarnhau bod oddeutu 19,000 o weithwyr yn Ynys Môn yn 2014. Byddai mewnlifiad o tua 8,000 o weithwyr (y rhif bras o'r tu allan i'r ardal leol) yn y cyfnod adeiladu prysuraf yn arwain at uchafswm cynnydd o dros 40%, a thros 30% dros bedair blynedd (dros 6,000 o weithwyr). Byddai gweithlu brig gweithredol o 1,000 yn cynrychioli tua 5% o gynnydd.

2.23 O fewn cyfyngiadau datganiad gwrandawiad fel hwn, ni all Horizon ddarparu arolwg lawn o raddfa ac ystod o anghenion ac effeithiau sy'n deillio o Brosiect Wylfa Newydd. Fodd bynnag, mae'r manylion uchod eu hunain yn dangos yn glir sut mae'r prosiect yn cyflwyno gofynion unigryw sy'n arbennig o berthnasol ac arwyddocaol ac angen triniaeth benodol a nodir drwy ddiwygio'r polisïau yn y Cynllun.

**2.24** Mae'r angen i ddarparu ar gyfer tua 8,000 o weithwyr adeiladu yn amlwg o'r fath arwyddocâd fel ei fod angen triniaeth benodol mewn polisïau cynllunio. Rhaid i bolisïau cynllunio gydnabod yr angen am hyblygrwydd digonol i ymateb i'r rhaglen sy'n esblygu a niferoedd gweithwyr adeiladu y

[7] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

[8] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

Prosiect. Mae'n amlwg bod angen ymdrin â’r gofynion hyn tu allan i bolisïau sy'n delio â datblygiad cyffredinol.

2.25 Nid yw nifer o’r polisïau yn cynnwys digon o hyblygrwydd a gallent arwain at sefyllfa lle’r ystyrir bod y cynigion datblygu yn wyriad o’r Cynllun Datblygu, pan nad dyna a fwriadwyd. Ystyria Horizon felly bod anhyblygrwydd y Cynllun yn golygu nad yw’n gadarn, a’i fod yn methu â chwrdd â phrawf cadernid 3 ym Mholisi Cynllunio Cymru[5] a phrawf CE4[6] yn y Cynllun ei hun.

***b)*** **<u>A yw strategaeth y Cynllun yn diogelu’n ddigonol fuddiannau’r iaith Gymraeg?</u>**

*(Cwestiwn 9, Sesiwn Gwrandawiad 1 Paratoi’r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth Ofodol - Agenda Materion)*

2.26 Mae Horizon yn gwbl ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac mae'n datblygu cynigion lliniaru cynhwysfawr yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae elfennau o'r Cynllun sy'n ymwneud ag amddiffyn yr iaith Gymraeg yn anghyson â'r dull a nodir mewn polisi cenedlaethol, ac felly’n methu prawf cadernid 1 ym Mholisi Cynllunio Cymru[7] a CE1[8] yn y Cynllun ei hun. Ystyria Horizon bod maen prawf 4 o bolisi PS1 yn y Fersiwn Gyfansawdd (2016) yn rhy gyfyngol o ran cynigion datblygu cysylltiedig.

*2.27* Noda Maen Prawf 4 y bydd y Cynghorau yn amddiffyn yr iaith a’r diwylliant Cymraeg drwy *“wrthod cynigion sydd, oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned”.*

2.28 Noda Horizon bod Nodyn Cyngor Technegol 20 (2013) ("TAN 20") a fabwysiadwyd yn gwneud yn glir ym mharagraff 4.1.2, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol lle gall anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth berthnasol, rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar seiliau cynllunio yn unig, a bod yn rhesymol. Ystyrir bod gwrthodiad cyffredinol o unrhyw geisiadau sydd i gael effaith sylweddol ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, waeth beth fo’r mesurau lliniaru arfaethedig ac ystyriaethau perthnasol eraill, yn anghyson â TAN 20.

---

[5] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[6] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

[7] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[8] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

**c)** **A all y cynllun ymateb yn effeithiol i newidiadau ym mhrosiect Wylfa Newydd?**

*(Cwestiwn 11, Sesiwn Gwrandawiad 1 Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth Ofodol - Agenda Materion)*

2.29 Ystyria Horizon nad yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb yn effeithiol i newidiadau yn y Prosiect. Nodwyd nifer o enghreifftiau mewn datganiadau gwrandawiad eraill gan Horizon ar gyfer Sesiynau 2 (Darpariaeth Tai), 5 (Economi - cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), 6 (Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol), a 9 (Wylfa).

2.30 Mae hyn yn bennaf oherwydd geiriad anhyblyg sawl polisi yn y Cynllun, fel maen prawf 4 ym mholisi PS1, yr ystyria Horizon nad yw'n gadarn gyda golwg benodol ar brawf cadernid 3 ym Mholisi Cynllunio Cymru[9] a phrawf CE4[10] y Cynllun ei hun.

2.31 Mae angen diwygio nifer o bolisïau i sicrhau bod y Cynllun yn ddigon hyblyg ac yn darparu mecanwaith clir ar gyfer gweithredu polisïau mewn perthynas â'r Prosiect.

**2.32** Disgrifir yr anhyblygrwydd sy'n gynhenid yn y polisïau hyn, a'r diwygiadau penodol a geisir, yn natganiadau gwrandawiad eraill Horizon.

2.33 Dim ond newidiadau penodol i bolisi PS1 a geisir yn y Datganiad hwn (ond hefyd mae'n gosod y cyd-destun ar gyfer pryderon cyffredinol Horizon gyda'r Cynllun sy'n llifo trwy ei holl ddatganiadau gwrandawiad).

[9] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[10] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

# 3 NEWIDIADAU A GEISIR

3.1 Mae Horizon yn mynd ar ôl ei opsiwn amgen o geisio diwygiadau penodol i bolisïau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

3.2 Ystyria Horizon bod angen diwygiadau i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol, y byddai eu habsenoldeb fel arall yn gallu peryglu cyflenwi prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig.

**a) <u>Diwygiadau i Bolisi PS1: Iaith a’r Diwylliant Cymraeg i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol</u>**

3.3 Mae Horizon yn gwbl ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Fodd bynnag, ystyrir bod angen diwygiadau i faen prawf 4 o bolisi PS1 er mwyn sicrhau ei fod yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, fel y manylir yn Atodiad 5 y Datganiad hwn.

# ATODIAD 1 – CYFUNDREFN GANIATÁU A MATERION ALLWEDDOL

Mae'r gyfundrefn ganiatáu i NSIPs yng Nghymru yn gweithredu ochr yn ochr â'r gyfundrefn gynllunio gwlad a thref. Tra bydd Wylfa Newydd ei hun yn cael ei benderfynu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac yn cael caniatâd gan Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO"), bydd angen i ddatblygiadau cysylltiedig ddod ymlaen o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ("TCPA"). (Er y gall rhai datblygiadau cysylltiedig gael caniatâd drwy'r DCO os yw'r newidiadau a gynigir ar hyn o bryd drwy ddrafft Fesur Cymru yn dod i rym.)

Yn hanfodol, mae Horizon yn rhagweld y bydd yr angen i geisiadau TCPA am ddatblygiadau cysylltiedig gael caniatâd cynnar yn dod yn fwyfwy angenrheidiol. Mae hyn oherwydd bod awdurdodau archwilio ar gyfer DCO's Cymru yn parhau i roi pwysau cynyddol ar ddatblygwyr i gael cymeradwyo eu ceisiadau TCPA erbyn adeg yr archwiliad DCO. Mae hyn er mwyn rhoi sicrwydd nad oes unrhyw rwystr i gyflwyno prosiectau seilwaith sydd mor bwysig ac arwyddocaol. Mae'n hollbwysig felly bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi cynllunio priodol er mwyn peidio â chreu rhwystr neu rwystrau diangen ar gyfer ceisiadau datblygiadau cysylltiedig TCPA. Gallai gwneud hynny ragfarnu'n erbyn cyflenwad amserol o un o brosiectau seilwaith blaenoriaeth yn y DU, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Ystyria Horizon nad yw'r Cynllun (ac mae wedi dweud hyn drwy gydol y broses o lunio'r cynllun) ar hyn o bryd yn cynnwys fframwaith polisi cynllunio clir, yn erbyn yr hwn y gall y Cynghorau wneud eu hymatebion ymgynghoriad i'r cais DCO a phenderfynu ar geisiadau datblygiadau cysylltiedig. Ystyria Horizon fod hyn yn peri risg sylfaenol i gyflenwad amserol Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig.

Ystyria Horizon mai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o sicrhau bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi cynllunio priodol, clir a chadarn sy'n ofynnol i gyflenwi Wylfa Newydd yw drwy gyflwyno polisïau penodol Wylfa Newydd. Fodd bynnag, mae'r UPCC wedi gwrthwynebu'n gryf ymgorffori polisïau o'r fath, gan adael Horizon heb unrhyw ddewis ond mynd ar drywydd newidiadau penodol i bolisïau eraill i sicrhau cadernid y Cynllun.

Ystyria Horizon ei bod yn hanfodol felly bod y Cynllun yn cael ei fireinio a'i ddiwygio fel bod gwahaniaeth clir rhwng y polisïau hynny sy'n ymwneud â chynigion cyffredinol a'r rhai sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd (a datblygiadau cysylltiedig yn arbennig). Heb y mireinio hwn, mae gormod o ansicrwydd ynghylch pa bolisïau fydd yn berthnasol a sut y byddant yn cael eu cymhwyso.

# ATODIAD 2 – DISGRIFIAD O BROSIECT WYLFA NEWYDD

Nodwyd cydrannau Prosiect Wylfa Newydd a amlinellir uchod yn fwy manwl yn yr Atodiad hwn. Mae hyn yn cynnwys yr elfennau hynny sydd i'w lleoli ar safleoedd gorsaf ynni, cyfleusterau gorsaf ynni oddi ar y safle, Datblygiadau Cysylltiedig, gweithgareddau adeiladu gorsaf ynni a'r dulliau strategol sydd i'w defnyddio i gyflenwi'r Prosiect.

## a) Safle gorsaf ynni ac o amgylch

### *i) Y Prif Safle Gwaith*

Mae lleoliad a chynllun y gwahanol strwythurau ac adeiladau sy'n cynnwys y Prif Waith wedi cael eu datblygu a'u hoptimeiddio gan ystyried gofynion dylunio rheoleiddiol a thechnegol.

Byddai pob un o'r ddwy Uned Adweithydd Dŵr Berw Uwch ("ABWR") yn cynnwys yr adeiladau ac offer canlynol:

- Adeilad yr adweithydd;
- Adeilad rheoli;
- Adeilad tyrbin, sy'n cynnwys y tyrbin ager, cyddwysydd, generadur trydanol, amrywiol offer ategol a systemau cysylltu;
- Adeilad cyfnewidydd gwres;
- Adeilad fent hidlwr;
- Adeilad cynorthwyol;
- Adeilad gwastraff ymbelydrol;
- Adeilad gwasanaeth; a
- Generaduron brys.

Mae’r cydrannau canlynol yn gysylltiedig â throsi’r ager sy’n cynnwys ynni a gynhyrchir ym mhob adweithydd niwclear i bŵer trydan ar gyfer ei allforio i’r grid cenedlaethol:

- Generaduron trawsyrru a newidyddion ategol; a
- Cysylltiad integrol y newidyddion i is-orsaf y grid.

*ii)* *Safleoedd Gwaith ac Offer Cyffredin*

Mae’r adeiladau ac offer gwaith cyffredin yn gwasanaethu’r ddwy Uned ABWR DU a byddent yn cynnwys:

- System Dŵr Oeri (strwythurau derbyn, sgriniau a system atal a dychwelyd pysgod, strwythurau tŷ pwmp, peiriannau ac offer pwmpio, pyllau sêl, hidlenni pêl, cylfatiau/ twneli rhyddhau a gollyngfa), ynghyd â gwaith trin bywleiddiaid a dau forglawdd morol sy'n cynnal hinsawdd tonnau ffafriol ym Mhorth-y-pistyll lle mae'r strwythurau derbyn wedi eu lleoli;
- Boeleri ategol (‘Tŷ’) a thanciau tanwydd;
- Adeilad trin dŵr ‘makeup’ (a thanciau storio dŵr a chemegau cysylltiedig);
- Adeiladau ymladd tân (a thanciau storio dŵr cysylltiedig);
- Storio gweddillion tanwydd a mathau eraill o wastraff ymbelydrol, a
- Strwythurau neu gyfleusterau ychwanegol fel ffensys diogelwch a phorthdai, goleuadau safle, garejys a gweithdai, adeiladau cyflenwad pŵer a ddosbarthwyd, adeilad gweinyddol, adeilad toriad i'w defnyddio yn ystod ail-lenwi ac ar gyfer defnydd staff cynnal a chadw dros dro, ffordd fynediad i'r brif orsaf ynni ac amryw o ffyrdd mewnol a pharcio ceir.

*iii)* *Cyfleusterau, Adeiladau, Strwythurau a Nodweddion Cefnogol*

Yn ogystal, byddai strwythurau cefnogol megis swyddfeydd, cynnal a chadw, a chyfleusterau rheoli, ffyrdd a nodweddion eraill sy'n angenrheidiol i gefnogi adeiladu, gweithredu a rheoli'r orsaf ynni. Byddai'r rhain yn rhan annatod o Orsaf Ynni Wylfa Newydd, ond ni fyddent yn gysylltiedig â’r broses.

*iv)* *Storio gwastraff ymbelydrol*

Byddai Gorsaf Ynni Wylfa Newydd yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd. Mae Horizon wedi datblygu Strategaeth Wastraff Integredig sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cyfleusterau a gynlluniwyd yn arbennig i storio gwahanol fathau o wastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd.

Mae Horizon yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau sy'n dod yn sgil gweithredu gorsaf ynni niwclear a byddai'r holl drefniadau diogelwch, amgylcheddol a sicrwydd angenrheidiol ar gyfer Gorsaf Ynni Wylfa Newydd yn cael eu rhoi ar waith yn unol â threfn reoleiddio yn y DU. Mae Horizon wedi dechrau gwaith paratoadol ar ei Strategaeth Achos Diogelwch i ddangos sut y bydd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu bodloni.

*v) <u>Gwaith morol</u>*

Byddai angen nifer o gydrannau Prosiect Wylfa Newydd yn yr amgylchedd morol i gefnogi adeiladu a gweithredu Gorsaf Ynni Wylfa Newydd. Byddai'r dŵr ar gyfer y CWS, a ddefnyddir i gywasgu ager, yn cael ei gymryd o Fôr Iwerddon a'i ddychwelyd i Fôr Iwerddon drwy strwythurau derbyn a gollwng. Byddai strwythur derbynfa dŵr oeri a thŷ pwmpio yn cael eu lleoli ym Mhorth-y-pistyll. Mae'n ofynnol cael strwythurau morglawdd ym Mhorth-y-pistyll i amddiffyn y strwythurau derbyn dŵr oeri a thŷ pwmpio.

*vi) <u>Campws Llety Gweithwyr Dros Dro ar y Safle</u>*

Mae angen datblygiad arddull campws ar Safle'r Orsaf Ynni i gartrefu hyd at 500 o weithwyr adeiladu y bydd angen iddynt gael eu lleoli ar y safle i ymgymryd â thasgau hanfodol ac aml-sifft, megis arllwys concrid niwclear 24 awr ar gyfer y prif waith.

*vii) <u>Adeilad Hyfforddi ac Efelychu</u>*

Byddai Adeilad Hyfforddi ac Efelychu yn cynnwys dau efelychydd sgôp llawn o'r Unedau ABWR DU, ynghyd ag ystod o ddosbarthiadau a mannau hyfforddi. Yn ogystal â phrofi ymatebion i sefyllfaoedd cyffredin, byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer hyfforddiant arbennig gweithlu gweithredol Horizon.

*viii) <u>Gwaith tirlunio</u>*

Er mwyn darparu rhywfaint o sgrinio gweledol a sŵn o safle'r Orsaf Ynni i gymunedau cyfagos, byddai tomenni pridd yn cael eu ffurfio yn ystod y cyfnod adeiladu a'u tirlunio cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan helpu i greu lleoliad addas ar gyfer yr Orsaf Ynni. Er mwyn cyflawni hyn, byddai deunydd a gloddiwyd yn ystod gweithgareddau adeiladu yn cael eu defnyddio ac, fel y cyfryw, bydd ymddangosiad y tir yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn newid wrth i adeiladu fynd yn ei flaen.

Defnyddir dull graddol o weithredu'r tirlunio, yn unol ag Uwchgynllun Tirwedd ac Amgylcheddol cyffredinol.

*ix)* *Mynediad i'r cyhoedd*

Byddai nifer o hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, yn cael eu heffeithio gan weithgareddau adeiladu, sy'n golygu bod rhaid creu gwyriadau a chau rhai llwybrau. Byddai angen i Ffordd Cemlyn bresennol, sy'n rhan o lwybr beicio Llwybr Copr, hefyd fod ar gau drwy Safle'r Orsaf Ynni. Mae Ffordd Nanner yn darparu mynediad arall i Fae Cemlyn o'r A5025 a bydd gwaith priffyrdd yn cyflwyno gwelliannau i'r llwybr hwn.

*x)* *Ffordd mynediad i'r Orsaf Ynni*

Byddai un prif bwynt mynediad unigol i staff a'r rhan fwyaf o gerbydau sy'n dod i'r Orsaf Ynni dan amodau gweithredu cyffredin – y Ffordd Fynediad i'r Orsaf Ynni. Byddai hon yn nesáu at yr Orsaf Ynni ar y gornel de-ddwyreiniol, yn cysylltu â'r A5025 drwy gyffordd cylchfan arfaethedig newydd i'r de o Dregele.

*xi)* *Parcio ceir*

Mae cynllun safle'r orsaf ynni yn cynnwys parcio ceir i dri phrif grŵp o ddefnyddwyr, gyda nifer o leoliadau wedi eu nodi ar safle'r orsaf ynni.

xii) *Prif ffens berimedr a ffens adeiladu*

***Ffensio adeiladu***

Yn ystod gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle, byddai ffens perimedr yn cael ei chodi i ddiffinio maint y gwaith adeiladu. Byddai'r ffens perimedr yn darparu bylchau i ddiogelu mynediad i lwybrau cyhoeddus. Lle bo angen byddai'r bylchau hyn yn cael eu cau dros dro a llwybrau cyhoeddus yr effeithir arnynt yn cael eu dargyfeirio dros dro er mwyn galluogi i waith clirio a datblygu gael ei wneud. Ni fyddai llwybrau troed cyhoeddus yn cael ei gwyro a'u cau yn barhaol tan y rhoddir y DCO.

Ar gyfer y prif waith adeiladu gellir codi ffensys perimedr pellach a'u huwchraddio i weddu i gam y gwaith sy'n cael ei wneud a gofynion safle adeiladu niwclear. Byddai'r ffens adeiladu, lle y bo'n briodol, yn cwrdd â safonau'r Ganolfan er Diogelu Seilwaith Cenedlaethol, a gallai fod angen cymeradwyaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

***Prif ffens berimedr***

Byddai ffens ddiogelwch fewnol ac allanol. Byddai'r ffensys yn cwrdd â safonau'r Ganolfan er Diogelu Seilwaith Cenedlaethol a byddai angen cymeradwyaeth gan yr ONR. Byddai pob ffens yn cynnwys strwythur ffens ddwbl gyda pharthau clir rhyngddynt.

Byddai'r safle gweithredol hefyd angen goleuadau perimedr parhaol a thybir y byddai'r ffensys yn cael eu monitro gan systemau larwm a theledu cylch cyfyng. Byddai'r ffensys diogelwch mewnol ac allanol yn cynnwys porthdai ar gyfer rheoli diogelwch y safle. Byddai trydedd fynedfa (heb borthdy) yn cael ei darparu yng nghornel dde orllewinol y safle.

Byddai arwyddion clir yn cael eu codi ar y ffin Safle'r Orsaf Ynni (a fyddai'n eistedd o fewn y ffin adeiladu) yn unol â gofynion trwyddedu ONR, i ddiffinio'r ffin yn glir.

## b) Cyfleusterau Gorsaf Ynni oddi ar y Safle

Ceisir cael caniatâd i'r cyfleusterau hyn dan y DCO ond byddent wedi'u lleoli tu allan i Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd[11], oherwydd mae angen iddynt fod yn ffisegol ar wahân i safle'r orsaf ynni er mwyn darparu gwasanaethau cefnogol brys hanfodol yn ystod comisiynu a gweithredu'r Orsaf Ynni.

### *i) AECC ac ESL*

Byddai'r AECC darparu cyfleusterau gorchymyn a chyfathrebu wrth gefn i hwyluso rheolaeth strategol yr ymateb sydd ei angen mewn sefyllfa annhebygol dros ben o ddigwyddiad safle gorsaf ynni os yw'r brif Ganolfan Reoli Argyfwng ddim ar gael neu os nad oes mynediad i safle'r orsaf ynni.

Byddai'r ESL yn darparu cyfleusterau i reoli monitro amgylcheddol ac arolygon radiolegol yn yr ardal leol, gan gynnwys rheolaethau offer monitro ymbelydredd, ar gyfer dadansoddi samplau ac asesu'r goblygiadau i bobl a'r amgylchedd. Byddai angen i nifer fach o gerbydau fod yn y cyfleuster hwn.

Cynigir y byddai'r AECC ac ESL yn cael eu cydleoli mewn un adeilad gyda mynediad, cyfleustodau a chysylltiadau cyfathrebu cysylltiedig i Safle'r Orsaf Ynni. Mae ffactorau lleoliadol penodol y mae'n rhaid eu bodloni wrth ddewis safle ar gyfer y cyfleusterau hyn. Mae Horizon wedi nodi safle a ffefrir yng Nghefn Coch, ger yr A5025 ychydig i'r de o bentrefan Pandy, ar dir a fydd yn cael ei effeithio gan y gwelliannau Priffyrdd oddi ar-lein A5025 arfaethedig yn yr ardal hon. Hefyd mae safle arall yn Ysgol Cylch y Garn Llanrhuddlad yn cael ei ystyried.

### *ii) MEEG*

Byddai'r MEEG yn storio nifer o gerbydau arbenigol mewn lleoliad sy'n agos at, ond ar wahân, i Safle'r Orsaf Ynni, a fyddai'n eu galluogi i gael eu defnyddio'n gyflym os oes angen i gefnogi digwyddiad. Gallai'r MEEG hefyd gael ei ddefnyddio fel pwynt trefnu ar gyfer cymorth yn cyrraedd ar Ynys Môn cyn ei yrru ymlaen i safle'r orsaf ynni mewn sefyllfa o argyfwng.

Yn yr un modd â'r AECC ac ESL, fel rhan o'r trefniadau brys ar gyfer Gorsaf Cynhyrchu Wylfa Newydd, mae rhai meini prawf lleoliadol y mae'n rhaid eu bodloni wrth ddewis safle ar gyfer y cyfleuster hwn. Mae Horizon wedi nodi safle a ffefrir ar gyfer y MEEG ar ddarn o dir sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel depo bws a garej cynnal a chadw ar gyfer cerbydau nwyddau masnachol a thrwm, tuag at ben gogleddol Llanfaethlu, gyda mynediad uniongyrchol i'r A5025.

**c) Datblygiadau Cysylltiedig**

Mae cyfleusterau arfaethedig eraill sydd eu hangen ar gyfer gwaith adeiladu a gweithredu'r Orsaf Ynni nad ydynt yn cael eu hystyried yn integrol i'r Orsaf Cynhyrchu. O dan y system reoleiddio bresennol yng Nghymru, nid yw Datblygiadau Cysylltiedig gael eu cynnwys yn y cais DCO ac felly ar hyn o bryd, byddai angen ceisiadau ar wahân am ganiatâd cynllunio o dan TCPA. Byddai Mesur Cymru a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2016 gan Swyddfa Cymru yn caniatáu i Ddatblygiadau Cysylltiedig sy'n ymwneud â chynhyrchu trydan Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP) yng Nghymru o dros 350MW gael caniatâd drwy DCO. Felly mae'n bosibl y bydd gan Horizon y gallu i gydsynio rywfaint o'i Ddatblygiadau Cysylltiedig yn ei DCO. Er mwyn gwarchod y cyfle hwn mae Horizon yn ymgynghori ar ei Ddatblygiadau Cysylltiedig yn yr un modd ag y mae'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer NSIP; mae hyn hefyd yn gyson ag ymrwymiadau Horizon yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol.

*i) Gwelliannau Priffordd A5025*

Bwriada Horizon ddiffinio a gorfodi'r defnydd o lwybr neilltuol ar gyfer symud gweithwyr adeiladu o'i safle Parcio a Theithio a safleoedd Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro i safle'r orsaf ynni, yn ogystal â nwyddau ar y ffyrdd sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd. Mae'r gwelliannau yn ffocysu ar ran o'r A5025 rhwng Fali a safle'r orsaf ynni ac mae'n cynnwys nifer o ffyrdd osgoi a rhannau o ledu'r lôn gerbydau i wella geometreg i gerbydau nwyddau trwm basio a chyflenwi gwelliannau amgylcheddol fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd.

Mae'r Gwelliannau Priffordd oddi ar-lein arfaethedig ar yr A5025 yn cynnwys:

- Ffordd Osgoi A5/A5025 Fali – cyffordd â chylchfan pedair-braich yn cysylltu'r A5 gyda'r A5025 i'r dwyrain o'r gyffordd â signalau presennol sy'n cysylltu'r A5 gyda'r A5025 a B4545;

- Ffordd Osgoi Llanfachraeth (A5025) – priffordd 2km newydd i ddarparu ffordd osgoi i'r dwyrain o bentref Llanfachraeth;

- Ffordd Osgoi Llanfaethlu (A5025) – cynigir dileu dau dro is-safon presennol ger Tafarn y Black Lion a thrwy bentref Llanfaethlu; a

- Ffordd Osgoi Cefn Coch (A5025) - cynigir dileu dau dro radiws is-safon presennol yn Llanrhwydrys ger dwy fferm.

Mae'r Gwelliannau Priffordd oddi ar-lein arfaethedig ar yr A5025 yn cysylltu'n bennaf â lledu'r lôn gerbydau mewn lleoliadau lle byddai natur gyfyngedig y lôn gerbydau yn cyfyngu ar symudiadau cerbydau nwyddau trwm. Bwriedir lledu'r A5025 bresennol i led lôn gerbydau isafswm safonol 6.7m gyda dau strimyn caled 0.3m ar y naill ochr i'r lôn gerbydau i ddarparu lled palmantog o leiaf 7.3m, lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r dyluniad yn cynnwys nifer o wyriadau a llacio safonau. Y naill ochr i'r man palmantog, bydd o leiaf 450mm o led ymyl y ffordd yn aros o fewn ffin y briffordd bresennol, lle bo modd.

Byddai Ffordd Nanner yn cael ei huwchraddio ar gyfer y symudiadau traffig ychwanegol yn dilyn cau Ffordd Cemlyn (sy'n arwain o'r A5025 yn Nhregele i Fae Cemlyn) i ganiatáu clirio'r safle. Bydd y gwaith uwchraddio ar ffurf rhywfaint o ledu lleol i led safonol o 3.3m, lleoedd pasio ychwanegol ac ailadeiladu palmant.

Hefyd mae cynllun o arwyddion ffyrdd lleol a marciau yn cael ei archwilio ar yr A5025 rhwng Amlwch a Safle'r Orsaf Ynni bresennol. Byddai'r gwaith hwn o fewn ffin y briffordd bresennol.

*ii)* *Parcio a Theithio*

Bwriedir sefydlu cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir, yn union i'r gogledd-ddwyrain o Gyffordd 4 o'r A55. Byddai hyn yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer trosglwyddo gweithwyr adeiladu o gerbydau preifat i fysiau, er mwyn lleihau effaith y cerbydau sy'n teithio ar hyd yr A5025 i safle'r

orsaf ynni. Mae'r cyfleuster yn caniatáu ar gyfer parcio cerbydau diogel a chludo'r gweithwyr i safle'r Wylfa ar y bws mewn modd rheoledig. Byddai'r cyfleuster yn dod yn weithredol pan fydd y nifer y gweithwyr ar Safle'r Orsaf Ynni yn cyrraedd tua 1,500.

Unwaith y bydd yn weithredol, byddai'r cyfleuster hwn yn darparu lle parcio diogel ar gyfer tua 2,700 o gerbydau, gan gynnwys parcio staff ac Arosfan Bws, Parth Pigo'i Fyny a Gollwng i hyd at 40 o fysiau. Mae lefel y ddarpariaeth yn dibynnu ar y patrwm sifft a'r nifer parcio terfynol, a allai fod rhwng 25 a 40 o fysus. Byddai Adeilad Cyfleuster Cludiant Bws yn darparu gwybodaeth am gludiant, man aros, cyfleusterau lles, ffreutur gyrwyr bws, storfa beiciau a swyddfa rheoli cyfleusterau. Byddai'n cael ei staffio 24 awr y dydd gyda goleuadau, ffensys diogel a theledu cylch cyfyng.

*iii)* *Canolfan Logisteg*

Bwriedir sefydlu Canolfan Logisteg ar safle o fewn Parc Cybi yn agos at gyffordd 2 yr A55, i'r de o Gaergybi. Bwriad y cyfleuster yw rheoli amseriad y symudiadau traffig adeiladu i safle'r Orsaf Ynni ac i ganiatáu crynhoi cyflenwadau i lai o llwythi. Bydd hyn yn sicrhau bod symudiadau cerbydau ar hyd yr A5025 yn cael eu rheoli, gan leihau'r potensial ar gyfer tagfeydd. Byddai danfon deunyddiau adeiladu yn cael ei gyfeirio at y cyfleuster hwn ar gyfer cofrestru a naill ai eu dal neu eu storio yn y tymor byr ac yna eu hail-becynnu cyn symud ymlaen i Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd. Byddai hyn yn galluogi Horizon i reoli'r adegau pan fo cyflenwadau yn gallu teithio ymlaen o'r Ganolfan Logisteg i Safle'r Orsaf Ynni.

*iv)* *Llety Gweithwyr Dros Dro Oddi ar y Safle*

Byddai llawer o'r gweithwyr adeiladu yn cael eu cartrefu oddi ar y safle mewn datblygiad modiwlaidd arddull campws, gydag o leiaf 500 o welyau fesul lleoliad, wedi'i ddylunio ar gyfer meddiannaeth dros dro. Hefyd byddai darpariaeth o rai tai parhaol a fyddai'n cael eu defnyddio yn y tymor byr gan weithwyr adeiladu. Y safleoedd a ffefrir gan Horizon ar gyfer datblygu campysau Llety Gweithiwr Adeiladu Dros Dro yw Caergybi, Amlwch (Fferm Madyn) a Rhosgoch, gyda dewis posibl pellach yng nghyffiniau Amlwch, fel a ganlyn:

*v)* *Safleoedd a ffefrir:*

Kingsland a Cae Glas yng Nghaergybi, a nodwyd ar gyfer hyd at 3,500 o leoedd gwely dros dro. Byddai hyn yn darparu etifeddiaeth o lety gwyliau a datblygiad preswyl parhaol ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu. Mae'r safle hwn wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol fel rhan o ddatblygiad Land & Lakes.

Fferm Madyn, Amlwch (i'r gorllewin o'r B5111), a nodwyd ar gyfer adeiladu 50 o dai i ddarparu 200 o leoedd gwely ar gyfer gweithwyr adeiladu. Byddai'r rhain yn dod yn dai parhaol (byddai cyfran ohonynt yn dai fforddiadwy) ar ôl eu defnyddio gan weithwyr adeiladu.

Rhosgoch (hen safle Shell) ar gyfer darparu hyd at 1,500 o leoedd gwely i weithwyr dros dro. Byddai hyn yn cael ei ddwyn ymlaen mewn blociau o 500 o leoedd gwely yn ôl yr angen, i ateb y galw am lety gweithwyr y tu hwnt i'r cyflenwad o lety presennol (rhent preifat, mannau gwely twristiaeth, stoc perchen ddaliadaeth, cyflenwad cudd ac ailddefnyddio cartrefi gwag).

*vi)* *Safle arall:*

Amlwch (safleoedd A a B, i'r dwyrain a'r gorllewin o'r B5111), i ddarparu hyd at 800 o leoedd gwely i weithwyr dros dro. Ystyrir y safle hwn fel safle arall.

Byddai pob safle yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau gweithiwr. Er enghraifft, byddai'r cyfleusterau campws yn Rhosgoch a Cae Glas (sy'n gwasanaethu Kingsland hefyd) (a safleoedd Amlwch A a B, os y dônt ymlaen) yn cynnwys:

- Adeilad amwynder a lles i gynnwys arlwyo a bwyta; rheoli gweinyddu a chyfleusterau; ystafell gyffredin gyda theledu; ystafell triniaeth feddygol/cymorth cyntaf; swyddfa diogelwch/ rheolaeth; man danfon dillad i'w golchi ac i'w casglu; siop ar gyfer nwyddau sylfaenol; man ailgylchu;
- adeiladau ategol ar gyfer gwasanaethau cymorth megis cyfleustodau safle; gofynion golchi dillad; rheoli gwastraff; storfa deunyddiau cyffredinol/offer; storio beiciau; canolfan ynni;
- mannau parcio; ac
- arosfan bws, parth pigo'i fyny a gollwng.

vii) *Canolfan Derbyn Ymwelwyr a'r Cyfryngau*

Cyfleuster i roi gwybod i'r cyhoedd am Horizon, ynni niwclear a Gorsaf Ynni Wylfa Newydd ac i ddarparu gwybodaeth am y ffordd y maent yn cael eu gweithredu a'u rheoli. Byddai'r Ganolfan Ymwelwyr yn cynnal arddangosfeydd, cynadleddau a digwyddiadau addysgol. Gallai hefyd gynnwys sesiynau briffio i'r cyfryngau a phwynt trefnu lle gallai'r wasg ymgasglu a chael sesiynau briffio mewn achos o ddigwyddiad mawr, neu ddamwain, yn yr Orsaf Ynni.

Y safle arfaethedig ar gyfer y Ganolfan Derbyn Ymwelwyr a'r Cyfryngau yw ar gyffordd arfaethedig yr A5025 a Ffordd Fynediad newydd yr Orsaf Ynni, sydd ychydig o dan gilomedr i'r de o Dregele.

# ATODIAD 3 – POLISI STRATEGOL PS1: 'IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG' (NEWIDIADAU ARFAETHEDIG)

| Tabl 1: POLISI STRATEGOL PS1: IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG |
|---|
| Diwygiadau Horizon mewn **testun coch** (seiliedig ar Bolisi PS1 yn Natganiad Ysgrifenedig Fersiwn Gyfansawdd y CDLl ar y Cyd (2016))<br><br>*"**Polisi Strategol PS1: Iaith a'r Diwylliant Cymraeg***<br><br>***Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:***<br><br>***1. Ei gwneud yn ofynnol cael Datganiad Iaith Gymraeg, a fydd yn diogelu, hyrwyddo a gwella yr iaith Gymraeg, lle bo'r datblygiad bwriadedig yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol:***<br><br>***a) Datblygiadau manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu***<br><br>***b) Datblygiadau preswyl a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn rhoi mwy na'r targed tai dangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisïau TAI 14 - 18; neu***<br><br>***c) Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o unedau tai ar safleoedd a ddyrannwyd neu ar hap y tu mewn i ffiniau datblygu nad ydynt yn ymdrin â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiadau o'r Farchnad Dai a ffynonellau lleol perthnasol eraill o dystiolaeth i ddarparu ystod ddigonol o feintiau a mathau o unedau tai;***<br><br>***2. Ei gwneud yn ofynnol cael Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, hyrwyddo a gwella'r Iaith Gymraeg, pan fo'r datblygiad arfaethedig:***<br><br>***a) yn cynnwys hap-safle y tu allan i ffiniau datblygu ar gyfer datblygu datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygu cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif sylweddol o weithlu; ac*** |

***b) yn denu neu lletya nifer sylweddol o bobl nag a ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;***

3. ***Defnyddio dulliau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas i liniaru effeithiau negyddol yn cael eu darparu neu wneud cyfraniad tuag at liniaru'r effeithiau hynny;***

~~**4. *Gwrthod cynigion a fyddai oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.***~~

~~***5.***~~ ***4. Ei gwneud yn ofynnol i'r holl arwyddion gweithredol gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes fod yn ddwyieithog;***

~~***6.***~~ ***5. Disgwyl y defnyddir enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd."***